OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1622 (Cy.152)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU
BWYD, CYMRU

Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Dirymu) 2010

Gwnaed - - - -	*16 Mehefin 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*17 Mehefin 2010*
Yn dod i rym - -	*18 Mehefin 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**).

Cafodd Gweinidogion Cymru eu dynodi at ddibenion yr adran honno o ran mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol ar fwyd a mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu y porthir anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd ag ef(**2**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Dirymu) 2010 a deuant i rym ar 18 Mehefin 2010.

Dirymu

2.—(1) Dirymir Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) 2008(**3**).

(2) Dirymir Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Diwygio) 2008(**4**).

(**1**) 1972 p.68.
(**2**) O.S. 2005/1971. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y dynodiad hwn i Weinidogion Cymru gan baragraffau 28 a 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
(**3**) O.S. 2008/781 (Cy.80).
(**4**) O.S. 2008/1646 (Cy.159).